Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Ein cyf/Our ref: QAST / Llias / CB
Gofynnwch am/Please ask for: Caroline Burgin
Rhif Ffôn /Telephone: 01267 674013
Dyddiad/Date: 1 Rhagfyr 2023

Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth
Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3BB

Corporate Offices, Ystwyth Building
Hafan Derwen, St Davids Park, Job's Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 3BB

**PREIFAT A CHYFRINACHOL**

Er sylw Tracey Masters
Llais Rhanbarth Gorllewin Cymru
Swît 5, Llawr 1af,
Tŷ Myrddin,
Caerfyrddin
SA31 1LP

Annwyl Tracey,

**Parth: Arolygiad Hydref Ysbyty De Sir Benfro 2023**

Ymhellach i'ch e-bost a dderbyniwyd 20/11/23 yn amgáu adroddiad Llais Ysbyty De Sir Benfro, mae sylwadau cywirdeb ffeithiol y Bwrdd Iechyd ar yr adroddiad fel a ganlyn. Mae cyfieithiad o'r datganiadau gwreiddiol wedi'u cynnwys mewn italig er eglurder gyda datganiadau cywirdeb wedi hynny:

Tudalen 5:
*"Er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff, symudwyd 50% o welyau cleifion mewnol Ysbyty Llwynhelyg i Ysbyty Cymunedol De Sir Benfro."* Er eglurder, ailddyrannwyd 32 o welyau cleifion mewnol (nid 50%) i Ysbyty De Sir Benfro o Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg.

*"Creodd y Bwrdd Iechyd ward 30 gwely newydd yn Ysbyty De Sir Benfro yn Noc Penfro."* Er eglurder, rhannwyd y 32 gwely ychwanegol hyn yn ward Dwyrain a Gorllewin Cleddau lle dyrannwyd 15 a 13 gwely ac ychwanegwyd 4 gwely ychwanegol at ward Sunderland.

*"Mae ward newydd Cleddau yn cael ei harwain gan feddygon teulu."* Mae wardiau Cleddau a'r holl wardiau cleifion mewnol yn Ysbyty De Sir Benfro yn cael eu rheoli gan Ymgynghorwyr Gofal yr Henoed Ysbyty Llwynhelyg.

Tudalen 10:
O ran Cleddau, un teledu sydd, ond darperir gweithgareddau bob dydd i feddiannu amser cleifion. Darparwyd gwybodaeth am hyn a'r cadeiriau i'r arolygwyr ar y diwrnod.

*“Ward gogledd Cleddau a wardiau De Cleddau”* ar dudalennau 10 ac 11 – y wardiau yw Dwyrain a Gorllewin Cleddau.

O ran y troli a gweithgareddau eraill i gleifion ac ymwelwyr, darparwyd gwybodaeth ar y diwrnod y mae'r opsiynau hyn yn cael eu harchwilio.

Tudalen 13:
Argymhelliad 1: Roedd ward Sunderland yn uned 40 gwely, mae hyn wedi'i gynyddu gan 32 ychwanegol, nid yw hyn yn gynnydd o 100% yn nifer y gwelyau.

Argymhelliad 5: *“Y Bwrdd Iechyd i ymchwilio i weithio gyda sefydliadau i ddarparu cymorth a chyngor i gleifion â phroblemau anabledd yn enwedig ar ôl strôc. Yn ogystal ag agweddau corfforol strôc, cymorth gydag addasiadau tŷ, budd-daliadau a hawliau cleifion”* Mae cleifion strôc yn Sir Benfro yn derbyn gofal gan dîm amlddisgyblaethol hynod brofiadol sy'n ystyried adsefydlu ac anghenion unigol cleifion cyn iddynt gael eu rhyddhau sy'n cynnwys addasiadau i'r cartref trwy therapyddion galwedigaethol.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda'r Gymdeithas Strôc i helpu i ddarparu cymorth a chyngor i gleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Cathie Steele neu Caroline Burgin.

Yr eiddoch yn gywir



**Steve Moore**
**Prif Weithredwr**
Amg